**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 6ed o CHWEFROR 2023 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH**

**Presennol:** Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair),Delyth Thomas,Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Caroline Williams, Margaret Rees, Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Aled Williams, Tracey James , Linda Williams, Alan Lewis, Meic Bowen a'r Cynghorwr Sir Meinir James.

**2951** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Sir Meinir James ar farwolaeth ei Thad yn ddiweddar. Croesawyd Stuart Thomas o Gymdeithas Rheilffordd Gwendraeth a chawsom diweddariad ar eu cynlluniau. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad.

**2952 Cofnodion**
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 09/01/2023 fel rhai cywir.

**2953 Materion yn codi.**
Tud 1. Cofnod Rhif 2940 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Cafwyd ymateb oddiwrth y Cyngor Sir ac arhoswn am ddatblygiadau o fewn yr wythnosau nesaf.
Tud 1. Cofnod Rhif 2940- Cofeb Rhyfel Pontiets - Mae'r cais am nawdd ariannol yn cael eu hystyried gan y 'War Memorial Trust'.
Tud 1. Cofnod Rhif 2940 - Llwybr Treftadaeth – Cadwyd diweddariad gan Stuart Thomas ar y cynllun.
Tud 1. Cofnod Rhif 2940 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2940 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets – Mae'r Cyngor Cymuned Iechyd yn gwneud archwiliad.
Tud 1. Cofnod Rhif 2940 – Rhodfa Ceffylau – Byddwn yn trefni Cyfarfod Safle.
Tud 1. Cofnod Rhif 2942 – Ffederasiwn Ysgolion Carwe/Gwynfryn/Ponthenri –Arhoswn am ymateb oddiwrth yr Ysgolion.
Tud 1. Cofnod Rhif 2944 – Diffibrilwr Neuadd Pontiets – Mae'r Pads wedi cael eu newid.
Tud 2. Cofnod Rhif 2948 – Baw Cwn Carwe – Bydd arwyddion yn cael eu gosod yn fuan.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**2954** Pwyllgor Lles Llangyndeyrn - Yswiriant y Parc - Penderfynwyd cyflwyno rhodd o £354.19.

**2955** CISS – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

**2956** Eglwys Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

**2957** Neuadd Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Gohebiaeth Gyffredinol - Penderfynwyd darparu rhestr.

**2958** GIG Cymru – Ymarfer Defnyddio Diffibrilwr – Nodwyd y Llythyr.

**Ceisiadau Cynllunio**

**2959**

a) Rhif y Cais - PL/05369 – Pedrheol, Llanddarog– 'Glamping Pod' - Dim Gwrthwynebiad.

**.Gwaharddiad y Cyhoedd**

**2960 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.**

**Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis**

**2961** Derbyniwyd adroddiadau ariannol Ionawr. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

**2962 Toiledau'r Meinciau –** Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc ynglyn a chyflwr Drws y Stordy. Penderfynwyd ymchwilio ymhellach i'r mater.

**2963 Meysydd Chwarae Clwb Rygbi Pontiets -** Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc ac wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd gofyn am Gyngor Cyfreithiol ynglŷn â'r mater.

**2964 Heol y Delyn, Crwbin -** Penderfynwyd ymchwilio am Lwybr newydd i'r Gysgodfa Bys a gosod Ffens newydd .

**Cyfarfod nesaf:- 6ed Mawrth 2023 - Neuadd Pontiets**

**Llofnodwyd……………………………………………. CADEIRYDD**

**Dyddiad…………………………………………………**